



## TENDR AM DDATBLYGU LLWYBR DYSGU COEDWIGAETH CYMDEITHASOL yn canolbwyntio ar GYMUNED COEDWIGAETH GYMDEITHASOL ar YNYS MÔN

Mae Coed Lleol yn falch o gyhoeddi ein bod wedi derbyn cyllid i ddatblygu llwybrau Dysgu Coedwigaeth Cymdeithasol, gyda ffocws ar Ynys Môn. Rydym yn chwilio am rywun i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, fel cytundeb byrdymor.

Mae angen i'r prosiect datblygu gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Y gyllideb am y gwaith hwn yw £4.5K.

Mewn o leiaf 500 o eiriau, ymgeisiwch am y cyfle hwn drwy roi cynnig cyflwyno, cyfnodau amser a sut fydddech yn ymgorffori prosiect sy'n canolbwyntio ar Ynys Môn. Cynhwyswch hefyd eich sgiliau a'ch profiad yn y maes hwn o waith. Gallwch gyflwyno cais hirach os dymunwch.

Am unrhyw gwestiynau ac i ymgeisio, anfonwch e-bost at [amieandrews@smallwoods.org.uk](mailto:amieandrews@smallwoods.org.uk)

Y dyddiad cau i ymgeisio am y tendr yw **hanner dydd ar Ddydd Llun 13<sup>eg</sup> Chwefror**.

### Datblygu llwybr Dysgu Coedwigaeth Gymdeithasol (Coetiroedd a Llesiant) i gynorthwyo cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

CANLYNIAD	ALLBWN	Manylion
Deall sgiliau ac anghenion dysgu Cymuned Coedwigaeth Gymdeithasol Ynys Môn	Dadansoddiad Anghenion drwy gyfweiliad, holiadur a/neu grwpiau ffocws	<ul style="list-style-type: none"><li>Sut all Coed Actif gynorthwyo'r rhwydwaith parod i fod yn ddarparwyr atgyfeiriadau o ofal iechyd a chymdeithasol?</li><li>Pa gymwysterau a hyfforddiant sydd eu hangen arnynt?</li><li>Nodi darparwyr a chysiau hyfforddi i'w cynnal ar Ynys Môn – rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer Coedwigaeth Gymdeithasol</li></ul>
Deall llwybrau dysgu i Goedwigaeth Gymdeithasol a nodi'r prif arbenigeddau a'r meysydd gwaith	Mapiau yn dangos gwahanol fathau o Goedwigwyr Cymdeithasol a'r llwybrau maent wedi'u cymryd / gallent eu cymryd	Cyfweiliadau a dadansoddiad o: <ul style="list-style-type: none"><li>Gwaith presennol</li><li>Partneriaid AWW Ynys Môn</li><li>Profiad <i>Greenwood Centre</i> yn Lloegr</li><li>Coed Actif yn genedlaethol ledled Cymru</li><li><i>Branching Out Scotland</i></li><li>Tir Coed</li><li>Coetiroedd cymunedol</li></ul>
Nodi cysiau a bylchau mewn hyfforddiant ar gyfer Coedwigaeth	Argymhellion am ddatblygu, bylchau a chysiau newydd a	<ul style="list-style-type: none"><li>Yr angen am hyfforddiant achrededig derbyniol. Datblygodd Coed Lleol Lefel 3 yn barod, gyda chymorth AHNE Ynys Môn. Mae angen i hwn gael</li></ul>

Gymdeithasol	awgrymir i gwrdd ag anghenion y rhwydwaith  Byddai'r argymhellion hyn yn bwydo i gyllid pellach ar gyfer y gwaith hwn	ei gynorthwyo gan lwybr eglur: lefel 2 fel mynediad, lefel 3 Ymarferydd (wedi'i ddatblygu'n barod), lefel 4 fel.... <ul style="list-style-type: none"><li>• Beth fyddai'r lefelau priodol o 'gymhwyster' neu ai achrediad yw'r llwybr priodol? (Diploma, Tystysgrif, Gwobr)</li><li>• Deall beth yw'r angen am lwybr datblygu proffesiynol, cofrestr o ymarferwyr cymwys, canllaw DPP, systemau cydweithredol ar gyfer yswiriant ayyb, cyfleoedd rhwydweithio</li></ul>
Deall y prosesau atgyfeirio, asiantaethau atgyfeirio, a phwy sy'n ariannu'r gwasanaethau a ddarperir gan yr arweinwyr hyfforddedig yn y rhwydwaith	Astudiaethau Achos gwahanol lwybrau atgyfeirio	<ul style="list-style-type: none"><li>• Nodi cyrff comisiynu posibl [gofal iechyd preifat a chyhoeddus, sefydliadau cymorth iechyd cenedlaethol (MIND, Cymorth Canser, Dementia, Age Concern ayyb). Nodi cyrff amgylcheddol (RSPB, Ymddiriedolaethau Natur, gwasanaethau cefn gwlad Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol ayyb). Nodi cyrff treftadaeth cenedlaethol (Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CADW, English Scottish Heritage ayyb) a'r swyddogion perthnasol a'u briffio: e-bostio, ffonio, cyfarfodydd rhanbarthol.</li><li>• Cyfweiliadau – ffocws ar Fôn – Tyddyn Môn, Blaen y Coed, darparwyr gofal cymdeithasol ac iechyd eraill sy'n rhoi gwasanaeth coetir / awyr agored o beth sydd ynghlwm/sut mae'n gweithio</li><li>• Canolfan Sgiliau Coetiroedd – deall y cynllun hwn o ddarpariaeth Coedwigaeth Gymdeithasol ac ysgrifennu cynnwys</li></ul>
<b>Hybu proffil Hyfforddiant Coedwigaeth Gymdeithasol</b>	Ymgysylltu â Chymuned Dysgu Coedwigaeth Gymdeithasol drwy Facebook – erthyglau, cynyddu nifer hoffterau ac edrychiadau, hyrwyddo cyrsiau a bwrsariaethau	<ul style="list-style-type: none"><li>• Tudalen Dysgu Coedwigaeth Gymdeithasol Coed Lleol</li><li>• Cyswllt â'r Ganolfan Sgiliau Coetiroedd</li><li>• Cyrsiau achrededig OCN i gyfranogwyr Lefel 1 a 2 – rhan o sesiynau Coed Actif</li><li>• Cael deunydd golygyddol i gyhoeddiadau arbenigol (gofal iechyd, cyrff amgylcheddol a threftadaeth a chyfryngau cenedlaethol cyffredinol.)</li><li>• Creu llyfrynnau ac e-gyhoeddusrwydd i hyrwyddo cyrsiau.</li><li>• Dangos llwybrau clir i gyflogaeth a chyfleoedd eraill ar gyfer Coedwigwyr Gymdeithasol hyfforddedig</li></ul>